

# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 14.12.22 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

**Presennol:** Keith Carroll (KC – Cadeirydd), Nicola Roberts (NR), Geraint Micah (GM), Geraint Edwards (GE), Ian Williams (IW), Jenny Warne (JW), Francesca Pridding (FP), Howard Bevington (HB – Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Jane Lawrence (JL), David Griffiths (DG), Huw Davies (HD), Louise Hughes (LH - Cynghorydd Sirol).
3. **Datgan Diddordeb:** Dim.
4. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** - cofnodion y cyfarfod diwethaf (Mis Tachwedd)  
Cynnig: GE Eiliwyd: JW
5. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol**

### a) Diffibriliwr

Mae NR a gwraig y Cadeirydd wedi bod yn codi arian ac mae ganddynt £755.00 tuag at y costau. Maent hefyd yn cynnal parti Nadolig ar 18/12/22 i helpu godi arian. Pris y blwch yw £550.80 a £90.00 am y braced i'w ddal. Mae hyn yn £640.80 gan gynnwys TAW. Mae hyn yn dod o dan y swm o arian a godwyd, ac yn gadael £155.00 ynghyd ag arian pellach o swyddogaethau yn y dyfodol. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu setiau ychwanegol o badiauar gyfer defnyddio y diffibriliwr.

Mae'r lleoliad gwreiddiol yn Rhoslefain wedi newid ac mae gennym bellach ganiatâd gan Gyngor Gwynedd i'w osod ar bolyn lamp yng Nglyn Bedw, Rhoslefain. Bydd y cyngor hefyd yn darparu trydanwr i'w osod. Diolchodd y cynghorwyr i wraig y Cadeirydd am ei holl waith caled a threfnodd y Cadeirydd fancio'r arian parod o £854.50 a thalu sic o £640.80 am yr eitem. **I'w weithredu gan KC.**

Bydd y diffibriliwr yn ased i'r Cyngor Cymuned a bydd y clercc yn cysylltu â'r cwmni yswiriant pan fydd gennym yr holl fanylion sydd eu hangen i'w gynnwys yn ein polisi yswiriant. **I'w weithredu gan y clercc.**

### b) Defnyddio PC ym mhob cyfarfod ar gyfer presenoldeb o bell.

Trafodwyd bod paragraffau 10-14 o Ddeddf Llywodraeth Leol yr NALC yn ymdrin â hyn ac awgrymodd y cadeirydd ein bod yn mabwysiadu'r geiriad hwnnw. Drwy weithio o fewn y canllawiau hyn gan y llywodraeth nid oes gofyniad i ddiwygio ein rheolau sefydlog. Gellir recordio cyfarfodydd hefyd ac eithrio rhannau lle gwneir penderfyniad i wahardd y wasg a'r cyhoedd. Mae angen dolen ar y cyhoedd i ymuno. Roedd DG yn gweithio ar roi hyn ar ein sianel cyfryngau cymdeithasol. Cynigiodd FP ei roi ar facebook.

**I'w weithredu gan FP.**

### c) Cyllideb ar gyfer Coed Nadolig

Ni ddylid gwneud hyn ar ei ben ei hun ond fel rhan o'r gyllideb gyflawn.

## 6. **Praesept am y flwyddyn ariannol nesaf**

- Cafwyd sgwrs hir ynglyn a'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2023/24, er mwyn penderfynu ar y Praesept am y flwyddyn nesaf. Cyfansoddwyd taenlen gan FP ac fe'i chyflwynwyd i'r gynghorwyr y diwrnod canlynol. Bydd y clercc yn cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am £13,164.00 fel Praesept ar gyfer 2023/24 **I'w weithredu gan HB.**

- Dywedwyd hefyd nad oedd gwefan y cyngor yn cydymffurfio a rheolau newydd, a bod angen ei diwygio. Cadarnhawyd fod rheoliadau newydd ynghylch cynwysoldeb ar gyfer defnyddwyr anabl, a bod angen fformat gwahanol. Cynigiodd FP ddiwygio neu sefydlu gwefan newydd i'r Cyngor Cymuned.  
**I'w weithredu gan FP.**

## 7. Gohebiaeth wedi eu derbyn

- Derbyniwyd e-bost gan SARPA, ond oherwydd pwysau amser cytunwyd i ohirio trafod y mater yma tan y cyfarfod nesaf. **I'w weithredu gan HB.**

## 8. Materion Cynllunio

- **NP5/69/L113P** – Llanfendigaid, Rhoslefain, LL36 9LS - trosi golchdy a gweithdy i ffurfio 2 uned gwyliau a gosod ffenestri to ar y to blaen a chefn.
- **NP5/69/113M** – Llanfendigaid, Rhoslefain, LL36 9LS - gosod 5 x rhes o baneli solar 150kw ar y ddaear.
- **NP5/69/307A** – Riverside Stores, Llwyngwrl, LL37 2JX - adeiladu estyniad llawr cyntaf ar ben y siop presennol i ffurfio uned breswyl.
- **NP5/69/415** – Coed Mawr, Llwyngwrl, LL37 2QH - adeiladu adeilad amaethyddol.

**Gan nad oedd digon o wybodaeth wedi ei ddarparu - nid oedd yn bosibl i'r cynghorwyr gyflwyno eu sylwadau.**

## 9. Adroddiad Ariannol

- Trafodwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd, a cadarnhaodd y Clerc nad oedd yn gallu cael mynediad i gyfrifon y banc, felly 'roedd y broblem yn parhau. Cynigiodd GE gasglu datganiadau Banc Nat West, a checio'r sefyllfa ynglyng a chau y Cyfrif Bank gyda HSBC.
- Ni all y Cadeirydd lofnodi'r adroddiadau heb ddatganiadau'r Banc.  
**I'w weithredu gan GE.**

## 10. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr – Dim.

## 11. Adroddiad y Cynghorydd Sirol – LH ddim yn bresennol.

## 12. Unrhyw Fater Arall

- Bydd y Ganolfan ar gau tan Mis Chwefror, ar gyfer adnewyddu'r gegin, ond fe fydd y Swyddfa Bost yn dal i fod yn gwasanaethu or Ganolfan bob Dydd Mercher.
- Mae angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglyn a problemau yn y pentref -
  1. Mae angen glanhau'r sianel ddŵr ger Encyl a Glydwen ar y ffordd i Dywyn.
  2. Mae dwr ac algâu wedi rhewi ar y ffordd heibio i Ysgubor y Nant, gyferbyn â Sunbeach yn beryglus, felly mae angen sianel i ddargyfeirio'r dwr ar y safle.
  3. Mae wal yn disgyn i'r ffordd ger Llechwedd, Ffordd Coleg, Llwyngwrl.

**I'w weithredu gan HB.**

- Diolchodd GE i bawb a fu'n ymwneud â threfnu a gosod y Coed Nadolig. Ddydd Sadwrn 07.01.23 bydd y cynghorwyr yn cyfarfod i dynnu'r coed i lawr.
- Mae KC yn cynnig gosod planc sgaffald yn lle'r sedd fws sydd wedi'i difrodi, a'i phaentio'n wyrdd, ar gost o £27.48. Bydd GM yn gofyn i Clive am sedd newydd.
- Mae angen dechrau hysbysebu am glerc newydd. Soniwyd am yr hysbysfwrdd a tudalen facebook. Efallai y bydd FP yn adnabod rhywun sydd â diddordeb.
- Cytunodd aelodau'r cyngor i gefnogi cynnig gan NR ar gyfer carnifal pentref yr haf nesaf. Byddai trafodaethau yn cynnwys cau ffyrdd, defnyddio caeau, asesiadau risg, yswiriant, ayb. Cytunwyd i sefydlu "is-bwyllgor".  
**I'w weithredu gan NR.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 08/02/2023 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan**

**Arwyddwyd**

Cadeirydd ..... Dyddiad.....